OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 1433

## Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010

## RHAN 5

Cynlluniau

### Cynlluniau ansawdd aer

**20.**—(1) Os yw lefel sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, bensen, carbon monocsid, plwm neu $PM_{10}$ mewn aer amgylchynol yn uwch mewn unrhyw barth nag unrhyw un neu ragor o'r gwerthoedd terfyn yn Atodlen 1, neu os yw lefel $PM_{2\cdot5}$ mewn aer amgylchynol yn uwch mewn unrhyw barth na'r gwerth targed perthnasol yn Atodlen 2, yna, yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru lunio a gweithredu cynllun ansawdd aer er mwyn cyrraedd y gwerth terfyn neu'r gwerth targed perthnasol yn y parth hwnnw.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi dynodi parthau lle y mae gwerthoedd yn uwch na'r gwerthoedd terfyn ar gyfer $PM_{10}$ oherwydd ail-ddaliant gronynnau yn sgil gwasgaru tywod neu halen yn y gaeaf, yn unol ag Erthygl 21 o Gyfarwyddeb 2008/50/EC, dim ond i'r graddau y mae gwerthoedd uwch na'r gwerthoedd terfyn hynny i'w priodoli i ffynonellau $PM_{10}$ ac eithrio gwasgaru tywod neu halen yn y gaeaf y mae dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan baragraff (1) yn gymwys i'r parthau hynny.

(3) Os yw lefel yr osôn mewn aer amgylchynol yn uwch mewn unrhyw barth nag unrhyw un neu ragor o'r gwerthoedd targed ar gyfer osôn yn Atodlen 2, rhaid i Weinidogion Cymru, os yw'n briodol, lunio a gweithredu cynllun ansawdd aer i gyrraedd y gwerth targed perthnasol oni fyddai'r camau angenrheidiol ar gyfer cyrraedd y gwerth targed hwnnw'n arwain at gost anghymesur.

(4) Rhaid i gynllun ansawdd aer o dan baragraff (1) neu (3) gynnwys camau y bwriedir iddynt sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw werth terfyn perthnasol o fewn yr amser byrraf posibl.

(5) Os yw lefel $PM_{2\cdot5}$ mewn aer amgylchynol mewn unrhyw barth, ar unrhyw adeg cyn 31 Rhagfyr 2014, yn uwch na'r lefel a gyfrifwyd drwy gymhwyso'r ffin goddefiant ar gyfer y llygrydd hwnnw yn Atodlen 1 i'r gwerth terfyn perthnasol yn yr Atodlen honno, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a gweithredu cynllun ansawdd aer i gyrraedd y gwerth terfyn hwnnw yn y parth hwnnw.

(6) Rhaid i gynllun ansawdd aer gynnwys yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 6.

(7) Pan fo hynny'n bosibl, rhaid i gynllun ansawdd aer fod yn gyson â chynlluniau eraill a lunnir yn unol ag ymrwymiadau a osodir o dan—

(a) Cyfarwyddeb 2001/80/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfyngu ar allyriadau llygryddion penodol i'r aer o weithfeydd hylosgi mawr(**1**),

(b) Cyfarwyddeb 2001/81/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar derfynau cenedlaethol uchaf ar allyriadau ar gyfer llygryddion atmosfferig penodol, a

(c) Cyfarwyddeb 2002/49/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar asesu a rheoli sŵ n amgylcheddol(**2**).

(**1**) OJ Rhif L 309, 27.11.01, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2009/31/EC (OJ Rhif L 140, 5.6.09, t.114).
(**2**) OJ Rhif L 189, 18.7.02, t.12, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1137/2008 (OJ Rhif L 311, 21.11.08, t.1).

(8) Os bydd cynllun ansawdd aer yn ofynnol mewn perthynas â mwy nag un llygrydd mewn unrhyw barth, rhaid i Weinidogion Cymru, pan fo hynny'n briodol, lunio a gweithredu cynllun integredig ar gyfer y parth hwnnw mewn perthynas â phob llygrydd o dan sylw.